**P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau “nad ydynt yn hanfodol” yn ystod y cyfyngiadau symud**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gareth Howell, ar ôl casglu cyfanswm o 67,940 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o’i chyfyngiadau “cyfnod atal” 17 diwrnod o hyd, yn gwahardd gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol mewn siopau a gaiff aros ar agor. Nid ydym yn cytuno bod hwn yn gam rhesymegol na darbodus, a bydd yn arwain at fwy o niwed na daioni.

Er enghraifft, nid ydym yn cytuno y dylai rhieni gael eu gwahardd rhag prynu dillad ar gyfer eu plant yn ystod y cyfyngiadau symud wrth siopa. Mae hyn yn anghymesur ac yn greulon, ac rydym yn gofyn i’r penderfyniad gael ei wrthdroi ar unwaith.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru